# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'


CYF. 38. RHIF 10 MAWRTH 2017 50c


# Cyngerdd Nodedig yn Lerpwl



*Y Côr a'i harweinydd Geraint Roberts (Prestatyn)*

**Lluniau: Dr. John G. Williams**



*Meurig Rees, arweinydd y Cyngerdd*

*Cafodd Cymry'r Glannau wledd gerddorol yng nghwmni Côr Rygbi Gogledd Cymru ar nos Sadwrn, 28 Ionawr yng nghapel Elm Hall Drive, ger Penny Lane. Hedd Wyn oedd y thema a chawn glywed y Côr ar Medi 9 ym Mhenbedw*



*Gwydion Rhys, 13 oed o Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda. Y mae dyfodol disglair iddo fel cerddor*



*Dylan Cernyw, y telynor adnabyddus yn swyno y gynulleidfa*



*Siân Williams a roddodd i ni fraslun o fywyd y bugail a'r milwr, Hedd Wyn*

## YN Y RHIFYN HWN:


Coffad: Gwilym Euryn Roberts. Tudalen y Dysgwyr, Cystadleuaeth. Newyddion Bethel, Bethania, Cymry Manceinion, Penbedw. Cronfa Hedd Wyn.

Golygyddol

# *Cofio William Williams ('Pantycelyn' 1717-1791)* *gan D. Ben Rees*



Cawsom gyfle yn wythnos olaf Ionawr eleni i gofio cyfraniad anhygoel y Pêrganiedydd i'n traddodiad Cymraeg, Cristnogol a hynny ar Nos Lun, 23 Ionawr ac eto ar Sul, Ionawr 29 yng Nghyfarfod Dosbarth Lerpwl, a'r ddau gyfarfod yn adeiladau Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl. Clywsom am hanes ei rieni, ei gartref, ei ysgolheictod a'r dylanwadau a fu arno, ei wybodaeth o wyddoniaeth, meddygaeth, seicoleg, daearyddiaeth a llenyddiaeth. Gwelsom hefyd ef fel dyn busnes hirben, yn medru gwneud arian o'i lyfrau a'i lyfrynnau (naw deg ohonynt) ac fel ffermwr gofalus. Prynodd ystad fechan a daeth ffermydd Cefn-y-Coed a Phantycelyn gerllaw Llanymddyfri i'w ddwylo. Bu'n ffodus yn ei briod Mary ('Mali') Francis, Penlan, Llansawel, y gerddorwraig abl, a fu'n gefn iddo o 1747 (blwyddyn ei priodas) i'w farwolaeth ar 11 Ionawr 1791 ar ôl geni wyth o blant. Chwech merch a dau fab, a'r meibion yn cael ei ordeinio yn offeiriaid Anglicanaidd.

Ef yw ein hemynydd mawr, ac ef a fynegodd yn ei bryddestau a'i farwnadau fynegiant llwyr a llawn i deimladau dynion a merched y seiadau a dyheadau arweinwyr y Diwygiad Methodistaidd, yn arbennig Howell Harris, Daniel Rowland, Howell Davies a Peter Williams. Gofalodd ddefnyddio pob munudyn. Cyfunai dair galwedigaeth, sef ffermio, efengylu a phregethu, ymchwilio a ysgrifennu llyfrau emynau a rhyddiaith. Yn ei lyfrau sydd werth ei darllen y mae ganddo gyfraniad arhosol. Meddyliwn am ei gyfrol i gyfarwyddo y Methodistiaid Calfinaidd i ddewis yn dda y wraig a'r peryglon o beidio gwneud hynny. Wedyn cyfrol ar werth y Seiat sef grŵp o gredinwyr yn cyfarfod o leiaf bob wythnos i rannu cyfrinachau a phrofiad o fyw mewn byd digon anodd, cymdeithas prin ei hadnoddau, a chymunedau oedd yn dioddef afiechydon poenus, heintus. Bu ef yn dioddef yn ystod ei gyfnod fel curad Llanwrtyd ac Abergwesyn o'r frech wen, a chafodd ddioddef am deithio cymaint ar ei geffyl. Ond gan iddo gael ei demtio i fod yn feddyg fe wyddai gryn lawer am y grefft honno i liniaru ar ei beswch a'i flinderau.

Cefais gysur ar hyd fy mywyd yn ei emynau gan fy mod yn gwybod na sgrifennodd neb yn Gymraeg ddim byd tebyg i'r hyn a wnaeth ef. Y mae pob gair yn ei le, ei arddull yn aros yn ein cof, a medraf adrodd heb bapur cannoedd o linellau o'r emynau sy'n clodfori Iesu Grist y Duw-ddyn a'i aberth ar Galfari fryn. Y mae wedi llwyddo i wynebu ar y profiadau amrywiol i gyd, o'n geni hyd y daith anorfod, a chawn oleuni anhygoel ar Galfiniaeth uniongred. Go brin fod mwy na dwsin o bobl mewn unrhyw gapel o gant o aelodau sydd yn gyfarwydd â hanfodion diwinyddiaeth Galfinaidd bellach. Ond y mae pob copa byw sy'n canu ei ganeuon yn drachtio yn helaeth y Galfiniaeth sydd yn dreftadaeth ddeallusol i genedl y Cymry. Cafodd Pantycelyn ddigon o feirniaid llenyddol i ddadansoddi yr emynau, a'r casgliad y daw Syr John Morris-Jones, John Gwilym Jones, Dr. Glyn Tegai Hughes a Dr. Derec Llwyd Morgan a llawer eraill iddo yw hyn, Williams a luniodd telynegion perffeithiaf yr iaith. Ond i ni sydd yn ein canu o Sul i Sul nid telynegion mohonynt ond cyfryngau i'n cludo'n agos at y Duw Anfeidrol, ac sydd yn cyfleu i ni brofiadau dwysaf ein byw, ein dyhead am fod yn feibion a merched i Dduw, a'r hyfrydwch o weld dyddiau gwell ar y gorwel – emynau fel '*Iesu, Iesu rwyt ti'n ddigon*' a *'Iesu nid oes terfyn arnat'* a '*Rwy'n edrych dros y bryniau pell*' a neu '*Pererin wyf mewn anial di*r'.

Ganwyd ef ar 11 Chwefror, 1717, tair canrif yn ôl ac o 1762 i 1772 lluniodd toreth o'i emynau gan esgor yn Llangeitho ar Ddiwygiad grymus arall. Diolchwn eleni am ei gyfraniad a fydd yn goleuo ein llwybrau mewn oes aflafar, di-foes, a rhagfarnllyd iawn.

***Englynion Cyfoes***

**Rhandir Rhwd (UDA)**

Heb obaith hawdd troi'r bobol – â hen gân
am ogoniant rhithiol
dyma ddydd Arlywydd lol
â'i onestwydd dinistriol.


**BREXIT**

Rhacsyn o beth yw Brexit – wel imi
*The Dail Mail says it*
*will be fine.* Sai'n gwybot sut
yn y diwedd, *don't do it.*

*Y Prifardd Siôn Aled Owen*

# CORNEL Y TRYSORYDD

**Chwefror 2017**




| | |
|---|---|
| Mrs Gwenfyl Haynes, Wavertree | £25.00 |
| Mrs Mary C Williams, Cemaes | £12.00 |
| Mr Gwilym Lewis, Aigburth | £10.00 |
| Mr Tecwyn Evans, Ellesmere Port | £12.00 |
| Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree | £20.00 |
| Mrs Elan Jones, Mossley Hill | £5.00 |
| Miss Hilda Lloyd, Rainhill | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£109.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Coffâd*

# GWILYM EURYN ROBERTS

**(1942-2017), Abergele (a gynt o Lerpwl)**



**Braint yw llunio yr ysgrif goffa hon i Euryn Roberts, Lon y Mes, Abergele odn i ni yn Lerpwl, 43 Childwall Mount Road, Childwall. Cawsom gefnogaeth ddi-ildio ganddo ef a'i deulu. Ganwyd Euryn ar 5 Ionawr 1942 yn Llanberis, ac fe fu byw yn Nant Peris, cyn i'w rieni symud i Llysfaen ger Bae Colwyn. Yno y cafodd ei addysg gynradd cyn treulio cyfnod yn Ysgol Ramadeg Abergele. Hannai ei fam, merch fferm o Eglwysbach a'i Dad yn enedigol o Llysfaen. Rheolwr siop gwerthu papurau newyddion yn Hen Golwyn oedd swydd ei dad, a ganwyd dri o blant, sef Gwyndaf Roberts, sydd yn ysgrifennu yn gyson i'r *Gwyliedydd Newydd* a'i chwaer iau, Anwen a fu farw yn 2008 yn 59 mlwydd oed a Euryn oedd yr ail blentyn.**

**Derbyniwyd Euryn yn 1960 i Goleg Normal, Bangor lle y cafodd gyfle i ddefnyddio ei ddoniau, ac ar derfyn ei gwrs fel llawer eraill, symud yn athro i Gorfforaeth Lerpwl. Bu'n ffodus dros ben â chyfarfod a merch annwyl, Morfudd Ellis, merch y Mans yn y Gymdeithas Gymraeg. Yr oedd y ddau hefyd yn mynychu yr Eglwys Fethodistaidd yn Oakfield Road, Anfield. Priodwyd hwy yng Nghapel Pendref Dinbych lle roedd tad Morfudd yn weinidog, ym mis Mawrth 1967 a buasai'r ddau wedi dathlu eu priodas aur Mawrth eleni. Cafodd Euryn yrfa lwyddiannus a chofiaf ef yn Brifathro Ysgol St. Michael in the Hamlet. Ganwyd iddynt efeilliaid, Owain Ellis Roberts a Gwenan Roberts, a chawsom gryn lawer i'w wneud gyda'r ddau gan iddynt fynychu Capel Heathfield Road i'r Ysgol Sul a'r Gorlan. Gwyddom am gyfraniad eithriadol y ddau i S4C ac i BBC yn Llundain. Gwelwn Owain Ellis yn ddyddiol ar Newyddion Naw a byddaf yn gwylio gwaith Gwenan, fel cynhyrchydd ar *BBC 24 Hours*. Cafodd Euryn y cysur o fod yn daid addfwyn a balch Gwenno, Swyn a Deio Tomos.**

**Yr oedd Euryn yn Gymro i'r carn a chefnogodd y bywyd Cymraeg yn ninas Lerpwl yn gydwybodol ar hyd y blynyddoedd. Bu'n gefnogol i'r cynlluniau a gychwynais yn arbennig Cyngor Eglwysi Cymraeg Lerpwl a'r Cyffiniau (CECLAC) a thrwy hynny llwyddodd arweinwyr Eglwys Fethodistaidd Central Hall a ninnau yn Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl i ddeall ein gilydd a phenderfynu cydaddoli o 1 Ionawr 1995. Chwith meddwl mae dim ond Miss Marian Prys Davies sydd ar ôl o flaenoriaid yr Eglwys Fethodistaidd yn 1995. Coffa da am y Mri John Williams, D. Glyn Jones, Miss May Hughes a Euryn ynghyd a'r Parchedigion E. Gwyn Hughes a O. Prys Davies. Yn fuan iawn Euryn oedd yn dal pwys a gwres y dydd yn y ddiadell a gwerthfawrogwn ei gyfraniadau yng Nghyfarfod y Blaenoriaid ac fel Llywydd y Mis. Cyflawnai y cyfan yn ddestlus fel ef ei hun. Roedd fel pin mewn papur, a'i dynerwch a'i gyfeilgarwch yn blasuso bywyd pawb ohonom. Chwithdod oedd cael gwybod ei bod am symud i Abergele ac am ymuno yng nghapel Mynydd Seion, Capel y mae gennyf feddwl mawr ohono. Pan ddeuwn ar fy nhro yr oedd Morfudd ac yntau yno, yn werthfawrogol a diffuant. Chwith oedd sylwi fod y cof disglair yn dechrau pylu a chofiaf gyfarfod Ellis yn Aberystwyth ac yntau yn cyfeirio at y dirywiad yn ei dad. Bu'n rhaid iddo ryw ddwy flynedd yn ôl dderbyn gofal Cartref Nyrsio a daliodd Morfudd i ymweld ag ef yn ddyddiol er nad oedd hi'n gyrru car. Bu yn ddewr a chefnogol hyd y diwedd, a chydymdeimlwn yn fawr â hi a'r hol deulu.**

**Cynhaliwyd yr arwyl yng Nghapel Mynydd Seion ar fore Sadwrn, Ionawr 21 o dan ofal ei weinidog, y Parch Ifor ap Gwilym, y cerddor medrus. Gosodwyd ef i orffwys ym mynwent Mynydd Seion, mynwent y cenhadon fel y galwaf hi, yno y cawn y Parch a Mrs T. J. Jones, Silchar; Mrs R. A. Jones, Karimgri, a'i brawd Dr. John Jones, Jowai; Miss Ellen Hughes, Silchar; Mrs John Hughes, Abergele; y Parch a Mrs D. E. Jones, Lwshai; Parch O. W. Owen a Mrs Eluned Jones Owen. Ac yn ei ffordd dawel bellach yn eu plith cawn Euryn, 'cenhadwr' yng ngwir ystyr y gair. Boed y tragwyddol oleuni i ddisgleirio arno.**

***D. Ben Rees***


wps!

Clwb Cymdeithasu Cymry Proffesiynol
Welsh.Professional.Social

Lerpwl

Mae WPS!Lerpwl yn galw ar Gymry proffesiynol yn Lerpwl i ymuno â grŵp cymdeithasu yn y ddinas.

Dyma gyfle i gyfarfod â Chymry eraill mewn awyrgylch hamddenol. Nid oes rhaid bod yn siaradwr Cymraeg. Mae croeso i ddysgwyr y Gymraeg neu i rai sydd awydd ymarfer ac ennill hyder i siarad Cymraeg ddod i'r grŵp.

***Byddwn yn cyfarfod am y tro cyntaf nos Iau, Mawrth 2ail – lleoliad i'w gadarnhau.***

Am fanylion pellach dilynwch ni ar Trydar @WPSLerpwl neu anfonwch e-bost i

***carysgog@hotmail.co.uk***

*Carys Williams*
*Sara Williams*

# Newyddion o
# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Edrychwn ymlaen i Ŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw a Lerpwl ar 9 a 10 Medi eleni gan fod Hedd Wyn â chysylltiad agos a ni fel capel. Trefnodd Capel Waterloo adeg y Rhyfel Byd Cyntaf weithgareddau wythnosol ar gyfer y Cymry oedd yng ngwersyll Litherland sydd yn reit agos i Crosby Road South. Ar bnawn Sadwrn deuai ugeiniau o fechgyn Cymraeg fel Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) i fwynhau eu hunain mewn cyfeillachu a chwpaned o de. Yr oedd ef yn brysur iawn yr adeg honno yn cwblhau ei awdl i'r *Arwr* a gipiodd iddo Cadair Eisteddfod Penbedw – y Gadair Ddu Enwog. Y mae Cronfa Hedd Wyn trwy law ein Gweinidog yn gofyn am roddion, a gwelwn golli Mr. Gordon Short, gan iddo ef argyhoeddi llawer un i gyfrannu i Gronfa'r Mimosa. Y mae cymaint o alw ar ein cyfalaf, cofiwn Gronfa'r Cyfundeb Cymorth Cristnogol, sydd yn disgwyl pob aelod i gyfrannu, y tro hwn, at anghenion trigolion Ynysoedd y Phillipines. Disgwyliwn ymateb da fel y ceir bob amser.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ail ddechreuwyd wedi gwyliau'r Nadolig gyda Ocsiwn yn 5 Gwydrin Road yng ngofal yr arwerthwr profiadol John Williams. Daeth digon o nwyddau i'w gwerthu a'u prynu ac fe wnaed elw sylweddol i goffrau'r Gymdeithas am 2016-17.



***Dr. John G. Williams - yr ocsiwniar***



***John Pierce Jones a John Lyons***

Yr wythnos canlynol daeth un o iconau mwyaf S4C i'n diddori sef John Pierce Jones neu 'Mr. Picton'. Cawsom ganddo hanes ei fywyd o'i blentyndod yn Niwbwrch, Ynys Môn hyd heddiw. Yr oedd yr awydd ynddo i fod yn actor pan oedd yn blentyn yn byw gyda'i daid a'i nain. Cafodd gyfle i gymeryd rhan o flaen cynulleidfa yn y Capel yn y ddrama Nadolig a gweld mawrion byd ffilmiau yn y sinema oedd yn dod i Neuadd yr Eglwys yn Niwbwrch bob wythnos. Er iddo ddatblygu ei ddawn tra roedd yn byw yn Stevenage, yn arbennig ei acen Cockney, roedd yn falch o gael dychwelyd i Fôn ar ôl pedair mlynedd. Ymunodd â Heddlu Gwynedd a bu'n gweithio yn Nolgellau. Tra yn y heddlu cafodd ei dderbyn yn fyfyriwr yng Ngholeg Harlech lle bu iddo gyfarfod a Wil Sam a chael cyfle i actio yn rhai o'i ddramau. Cafodd ei dderbyn i Brifysgol Bangor lle ddaeth a daeth o dan ddylanwad John Gwilym Jones ac eraill. Byddai'r Adran ddrama yn y Brifysgol yn cynhyrchu drama bob flwyddyn a manteisiodd ar y cyfle i ddatblygu ei ddawn ymhellach. Cyfarfu Wilbert Lloyd Roberts sylfaenydd Cwmni Theatr Cymru a chafodd swydd gyda'r cwmni. Roedd breuddwyd ei blentyndod i fod yn actor wedi ei wireddu. Ei daith cyntaf gyda'r Cwmni oedd 'Tri Chryfion Byd' a'i gyd actorion oedd Charles Williams ac Ellen Rogers Jones. Wedi'r cyfnod yma ysgrifennodd sgriptiau i'r rhaglen deledu 'Miri Mawr' ac ef oedd 'Dan Dŵr'. Ysgrifennodd sgriptiau hefyd i 'Pobl y Cwm'. Ond fel Mr. Picton yn 'C'mon Midfield' mae pawb yn gofio amdano a braf oedd clywed am hanes y 6 cyfres a wnaed. Uchelgais arall oedd ganddo oedd mynd i'r môr. Bu teulu ei nain ar y môr er bu dau frawd iddi foddi. Yn diweddar mae wedi wneud rhaglenni gyda Dilwyn Morgan yn hwylio i bob man. Yn ystod ei ddarlith clywsom am y digwyddiadau sydd wedi ei arwain ymlaen i gyrraedd ei uchelgais i fod yn actor a dangos i ni yr hyn sy'n gwneud iddo dician'.

Ar y nos Fawrth olaf yn Ionawr daeth Nanw Povey atom. Eglurodd bod ei henw 'Nanw' yn addasiad o'r enw Myfanwy. Thema ei sgwrs oedd hanes ei gyrfa fel bydwraig. Wedi addysg gynradd



***Norma yn rhannu danteithion o Hwngari***



*Nanw Povey a Wena Evans*

ac uwchradd yn Llanuwchllyn a'r Bala dechreuodd nyrsio yna pan yn 16 oed wedi derbyn cyngor un o'i hathrawon. Awgrymwyd iddi fynd i Ysbyty Gobowen, Croesoswallt gan ei bod yn ysbyty safonol ac y byddai yn gallu dechrau yn 16 oed, blwyddyn yn gynt na'r gofynion i ddechrau mewn ysbytai eraill. Felly roedd ganddi fantais o flwyddyn o brofiad fel nyrs pan ddechreuodd chwilio am swyddi eraill yn 17 mlwydd oed. Ymgeisiodd am swydd yn Ysbyty Frenhinol Llundain (Royal London Hospital yn yr East End) a chlywsom am ei thaith i Lundain drwy'r eira trwm am y cyfweliad. Nanw oedd yr unig un allan o 27 o ymgeiswyr a gyrhaeddodd yr Ysbyty ac roedd hi'n llwyddiannus! Fe raddiodd fel bydwraig gofrestredig ac roedd yn amlwg ei bod wedi mwynhau ei gyrfa dros y blynyddoedd. Tynnodd ein sylw at hanes bydwragedd y Beibl e.e. Shifra a Pwa (Ecsodus 1:15). Gofynnodd i ni ystyried cwestiynnau moesol oedd hi wedi eu gwynebu yn sgîl ei gwaith e.e. a oes gan pob merch yr hawl i gael baban. Roedd yn falch fod gwelliant yn agwedd cymdeithas i famau sengl wedi newid yn ystod amser ei gyrfa. Clwysom hanesion llon a lleddf yn ei sgwrs ac ie – mae hi'n mwynhau y rhaglen ar y teledu *'Call the Midwife'!*


## Capel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Ar y Sul cyntaf, a hithau yn ddydd Calan o'r flwyddyn newydd cafwyd oedfa neilltuol a phriodol o ymgysegriad i ddiolch am y bendithion hynny a dderbyniwyd a'r gwarchod a fu arnom ar hyd y flwyddyn ddiwethaf, ac i ymroi o'r newydd ar gychwyn blwyddyn arall. Diolch i'n gweinidog Dr. D. Ben Rees am yr oedfa a'i gyfraniad gwerthfawr i holl aelodau'r eglwys. Roedd ein Cyfarfod Gweddi ddechrau'r flwyddyn ar y 9fed o Ionawr a baratowyd yn fanwl ac amserol gan Mair Powell, ysgrifenyddes y Gymdeithas Lenyddol. Cymerwyd rhan gan chwech o'n haelodau – edrych yn nôl yn ddiolchgar ac ymlaen yn hyderus. Cychwyn ystyrlawn i'r flwyddyn newydd ydoedd y cyfarfod hwn.

Cafwyd noson i gofio tri chan mlynedd geni William Williams, Pantycelyn ar Chwefror 11, 1717 gan aelodau o'r Gymdeithas Lenyddol, Margaret A. Williams, Anne M. Jones, Rhiannon Liddell, Ifor Griffith a Meirion Evans. Rhoddodd Margaret fraslun o hanes y teulu, amaethwyr oeddent, a dywedir i Williams fod yn un o'r rhai gorau yn y wlad. Ni fyddai byth yn segura nac yn


***UNDEB GORAWL CYMRY LERPWL***
*(Noddwr: Syr Karl Jenkins, OBE)*

**CYNGERDD GILBERT & SULLIVAN'S**




**Y NEUADD FAWR,**
**THE CORNERSTONE,**
**LIVERPOOL HOPE UNIVERSITY**
**L6 1HP.**

**Sadwrn, Mawrth 4, 2017**
**am 7.30 o'r gloch.**

**Arweinydd: Keith Orrell.**
**Cyfeilydd: Stephen Hargreaves.**

**Ticedi £12.50) ar werth gan Mavis Owens (Ffôn: 0151 652 6374) neu e-bost: mavis@lwcu.freeserve.co.uk**

**Ewch i'r wefan: www.lwcu.co.uk**
**Noson ddynamig arall**



***Cyfarfod William Williams, Pantycelyn***

hoffi gweld yr un o'r plant ysywaeth yn gwneud hynny.

Priododd â Mary Francis, Llansawel a bu yn wraig rinweddol a chefnogol iddo a ganwyd iddynt chwech o ferched a dau o feibion. Caed hanes ei waith gan Meirion. Roedd Williams yn fachgen galluog iawn a chafodd ei addysg mewn athrofa a dysgodd Gymraeg, Groeg a Lladin gyda'r bwriad o fynd yn feddyg, ond ail gyfeirio a wnaeth i fod yn bregethwr a churad.

Ychanegodd Ifor mai ei gyfraniad mwyaf oedd fel bardd a gyflwynai wirioneddau'r Efengyl yn ei emynau. Gwerthfawrogwyd ei ymdrechion barddol yn seiadau Daniel Rowlands. Canwyd un oi emynau gan y pedwarawd – *'Yn Eden, cofiaf hynny byth'*.

Un o offerynnau grymusaf y diwygiad oedd ei emynau a daliwn i'w canu heddiw.

Teithiai Williams tua 50 milltir yr wythnos a gwyddai am erwinder y tywydd a chyflwr y ffordd dros y mynyddoedd a'r creigiau. Cai drafferthion a pheryglon fyrdd ar gefn ei geffyl yn teithio'r wlad. Hyn oedd cefndir i'r emyn nesaf a ganodd y pedwarawd, *'Arglwydd, arwain drwy'r anialwch'*.

Williams oedd bardd rhamantus cyntaf Cymru, rhai o'i emynau yn debyg iawn i ganeuon serch. Mae'n haeddu yr enw 'Y Pêr Ganiedydd', ac ef yw bardd mwyaf Cymru gan iddo ysgrifennu naw cant o emynau, yn cynnwys rhai yn Saesneg, a'r pedwarawd yn canu un ohonynt eto -

*'Ennynaist ynof dân*
*Perffeithiaf dân y Nef.'*

Rhestrodd Rhiannon rhai o'i lyfrau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Aderyn y nos oedd Williams, gweithio i olau cannwyll, ef yn cyfansodd a Mali ei wraig yn eu hysgrifennu. Roedd iddo feddwl ymchwilgar a'i ddiddorodebau yn eang.

Yna, Meirion yn crynhoi y noson gan ddatgan mai pregethwr melys a derbyniol ydoedd. Bu farw Ionawr 11, 1791, Claddwyd ym mynwent Llanfair ar y Bryn, ac yma hefyd mae cofgolofn iddo.

Ceir darlun ohono ynghyd ag emynwyr eraill mewn ffenestr liw yn y Gadeirlan Anglicanaidd, Lerpwl. Ychwanegodd Dr. John Williams at wead y noson wrth ddangos lluniau addas ac emynau ar y sgrin.

Roedd y rhaglen hon yn hynod o safonol a graenus. Bu gwaith ymchwil a pharatoi ac yn haeddianol o emynydd gorau yr iaith Gymraeg.

Bore Sul olaf o'r mis roedd yr oedfa ar 'Pantycelyn yr emynydd, yr hoffus Williams' o dan ofal Mr. John Lyons, llywydd Cyfarfod Dosbarth Lerpwl. Darllenwyd o'r Salmau gan Meirion a soned R. Williams Parry ar 'Pantycelyn' gan Nan. Ein gweinidog Dr. D. Ben Rees draddododd yr homili, a chan ddarllen rhai o'r emynau yn dangos neges ganolog yr Efengyl a chryfder a phendantrwydd ffydd Williams.

Roedd ganddo gasgliad mawr o lyfrau yn ei stydi o waith y Piwritaniaid a'i ddiddordeb mewn pynciau amrywiol megis gwyddoniaeth, seryddiaeth a daearyddiaeth ynghyd â'i holl lyfryddiaeth ei hun. Oedfa i gydnabod y waddol adawodd y Pêr Ganiedydd at ein gwasanaeth ni heddiw.

Pedair emyn o waith Isaac Watts o *Ganeuon Ffydd* gafodd sylw ac ymdriniaeth Nos Lun olaf y mis o dan arweiniad ein gweinidog Dr. D. Ben Rees. Ganwyd Isaac Watts yn Southampton yn 1674. Roedd yn fachgen galluog dros ben a chafodd addysg mewn Academi a bu yn weinidog, tiwtor a chaplan. Ysgrifennodd saith gant o emynau. Bu farw yn 1748 a'i gladdu ym mynwent Abney Park, Stoke Newington.

Doedd yr emyn gyntaf rhif 901 yn *C.Ff.* ddim mor gyfarwydd i ni. Mae yn seiliedig ar adnodau o'r Datguddiad 5 bennod, adnodau 11-13. Yr ail emyn, y geiriau a'r dôn yn wybodus i ni a'r canu yn soniarus. Addasiad o Salm 72 a geir yn yr emyn 897. Canwyd hon ar y Sulgwyn yn 1862 pan sefydlwyd llywodraeth ar gyfer y cyfansoddiad Cristnogol yn Ynysoedd y De.

Darllenwyd yr emyn nesaf (rhif 889) yn Saesneg a'r cyfeithiaid Cymraeg J. C. Davies rhif 61. Emyn yw hon sy'n seiliedig ar Salm 90. Mae yn un o emynau mwyaf yr iaith ac yn hoff emyn i lawer un - *"O God, our help in ages past"*. Mae hi bron yn emyn genedlaethol i'r Saeson ac yn cael ei chanu yn gyson ar Sul y Cofio.

Mae'r emyn nesaf, rhif 920 yn un or pedair emyn mwyaf yn yr iaith Saesneg *"When I survey the wondrous cross",* a chymharwydd efelychiad o'r emyn yn yr iaith Gymraeg gan Williams, Pantycelyn (rhif 495). Hon yw hoff emyn ein gweinidog "Wrth edrych Iesu ar dy Groes". Mae canu ar hon yn aml yng ngwasanaeth y Cymun. Rhaid oedd terfynu y noson yn orfoleddus drwy ganu emyn 948 *"Guide me o thou great Jehovah"* y pennill cyntaf gan Peter Williams ar gweddill gan Bantycelyn ar y dôn Cwm Rhondda o waith John Hughes (1873-1932), Pontypridd. Diolch am noson i'w chofio, ein gweinidog yn ei afiaith yn cyflwyno llawer o wybodaeth am gefndir a chynnwys yr emynau ar gwrandawyr yn cael cyfle i ganu a thrafod y cenadwrïau.

Anfonwn ein cyfarchion atoch chwi holl aelodau'r Eglwys, ac yn arbennig atoch chwi sy'n methu mynychu'r oedfa fel y dymunwch.

Cydymdeimlwn â Mrs Blodwen Prowting ar golli ei chwaer yng Nghaerdydd. Mae Mrs Olwen Jones, Cleveley Park a Mrs Joyce Lewington, Pagefield Road adref o'r ysbytai. Brysiwch wella.

## Eglwys Laird Street, Penbedw

Llongyfarchiadau i Mrs Olwen Roose Jones ar gael ei anrhydeddu gan y papur lleol yn *Champion Volunteer* am ei gwaith dros ugain mlynedd yn *Claire House*.

Gyda llawenydd yn y gwasanaeth ar bnawn Sul cyntaf yn Rhagfyr fe dderbyniwyd Mrs Alice Jones yn gyflawn aelod. Croesawyd hi gan y Parch Ddr. D. Ben Rees gan ddymuno bob bendith iddi. Roedd Alice gyda aelodau eraill yn cymeryd rhan yn ein Gwasanaeth Carolau. Testun y gwasanaeth oedd *"Beth yw Nadolig?"* Cafwyd darlleniadau addas a chanu bywiog o'r carolau. Anfonwn ein cofion am wellhad buan i Mrs Morfudd Williams, Upton sydd o dan ofal yn Ysbyty Arrowe Park. Mae yr Adroddiad blynyddol wedi ei dosbarthu yn barod. Mae ein diolch yn fawr i'r swyddogion am ei holl waith canmoladwy.

# NEWYDDION CYMRY MANCEINION

Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'n darllenwyr ar ddechrau Blwyddyn y Ceiliog, yn ôl traddodiad y Tsieiniaid. Bu i Fanceinion ddathlu gyda phob math o orymdeithiau, fel Lerpwl ein chwaer ddinas gyfagos, gyda goleuadau lliwgar a del ym mhob man a llawer o hwyl a sbri! Mae fy nheulu i ar ochor fy mrawd yn dathlu yr ŵyl yma gyda theulu a ffrindiau am fod gwraig fy mrawd yn dod o'r Tsiena: Bwyd blasus, cyfarchion cynnes, anrhegion caredig yn arbennig arian, a dymuniadau am ddoethineb a gweithgarwch gydol y flwyddyn.

Ond cyn y Flwyddyn Newydd, cawsom ddathliadau Nadolig hyfryd yn rhan yma o'r byd. Roedd y cinio Nadolig mewn gwesty yn Heaton Moor, yn gweld dros 30 ohonom o'r capeli Cymraeg - a Fernanda o Portugal - gwraig Dafydd Llewellyn Capel Altrincham hefyd yno I fwynhau bwyd a chwmni da. Yn hwyrach ym mis Rhagfyr cawsom ein gwasanaeth carolau blynyddol, yng nghapel Noddfa Oaker Avenue eleni, a'r capel bach yn llawn. Daeth rhai o blant yr Eglwys (wedi tyfu erbyn hyn!) a cymerodd nifer fawr o aelodau ran yn y farddoniaeth, y darlleniadau a'r carolau. Diolch i Trefor a Glynn am ganu carol hyfryd a diolch i bawb a oedd ynglyn â'r gwasanaeth bendithiol hwnnw. Mwynheuwyd y lluniaeth a'r sgwrs wedyn hefyd wrth gwrs.

Bu colled yn ein capeli gyda marwolaeth Mrs Gwyneth Clement ar 6 Rhagfyr 2016. Gwraig wrol a hael oedd Gwyneth ac wedi cael llawer o dristwch yn ei bywyd ond roedd wedi cadw yn obeithiol a siriol trwy bob dim. Cawsom wasanaeth coffa iddi hi ym mis Ionawr wedi ei threfnu gan y pedwar ffrind oedd wedi ei chefnogi trwy ei gwaeledd a hyd at y diwedd. Roedd yn orig arbennig i gofio a diolch am ei bywyd hardd a daeth nifer fawr o'i ffrindiau o'r capeli ac o'r Eglwys yn ogystal a'i theulu o bell. Roedd yn ddigwyddiad cofiadwy iawn a gwnaeth Trefor Davies ganu unawd teimladwy o *Ganeuon Ffydd*.

Wrth gwrs mae Cymdeithas Cymry Manceinion yn cyfarfod yn gyson a chawn gyfarfodydd difyr iawn. Ar ddiwedd y flwyddyn 2016 rhoddodd Mrs Anne Hunt, ysgrifennydd y Gymdeithas, hanes Cymdeithas Cymry Manceinion a da o beth oedd atgoffa'r aelodau o'r ffyddloniaid gynt oedd wedi sefydlu a datblygu'r Gymdeithas.

I ddechrau'r flwyddyn newydd daeth Mr Alan Davies o Alderley Edge, pensaer adnabyddus, a'i wraig Wendy a oedd wedi bod yn Yr Wladfa am wyliau yn 2016 i sôn am eu taith. Llynedd yn y Gymdeithas, roedd Alan wedi sôn am adeiladau ond eleni roedd y Wladfa o dan y chwyddwydr a barn pawb oedd bod y cyfarfod yn wych a llawn amrywiaeth. Diolch i'r ddau ohonynt am ddod i'n hannerch.

Yn y cyfarfod nesaf fe fydd y Parchedig Ddr D. Ben Rees o Lerpwl yn ein difyrru ar bwnc o ddiddordeb i ni sef: 'Cyfraniad Syr John Morris Jones'. Mae cyfarfodydd felly yn ehangu'r ysbryd ac yn rhoi mwynhad aruthrol i Gymry Manceinion sy'n cael cyfle i gyd-gyfarfod a thrafod pynciau o bwys. Diolch i bawb sy'n cytuno dod i siarad wrthym, er ein bod ni dipyn yn bell o Gymru.


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# TUDALEN Y DYSGWYR

*gan Dr. Pat a Lowri Williams*

## Gŵyl Dewi

Ar y cyntaf o fis Mawrth, mae'r Cymry yn cofio diwrnod marw eu nawddsant, Dewi. Bu farw'r sant tua diwedd y chweched ganrif. Yn ôl yr hanes, mab Sanctws, brenin Ceredigion, a lleian o'r enw Non oedd Dewi. Mae llawer o straeon am wyrthiau Dewi Sant, er enghraifft atgyfodi bachgen bach marw ac adfer golwg dyn dall. Ond digwyddodd ei wyrth enwocaf ym mhentref Llanddewi Brefi. Roedd yn pregethu o flaen tyrfa fawr a rhai pobl yn methu ei weld na'i glywed. Yn sydyn glaniodd colomen wen ar ysgwydd Dewi a chododd y tir o dan ei draed fel bod pawb yn gallu ei weld a'i glywed.

Er nad yw Gŵyl Dewi yn ŵyl swyddogol, mae Cymry dros y byd yn ei dathlu mewn gwahanol ffyrdd: gyda chinio, parti, eisteddfod, cyngerdd neu wasanaeth crefyddol. Ar y cyntaf o Fawrth 2006 cafodd yr *Empire State Building* ei oleuo mewn coch, gwyn a gwyrdd i gofio nawddsant Cymru.

Yng Nghymru, bydd plant yn gwisgo'r wisg Gymreig yn yr ysgol ac yn cynnal eisteddfod, hyd yn oed yn llawer o'r ysgolion Saesneg. Bydd rhai pobl yn gwisgo cenhinen neu genhinen bedr. Does neb yn gwybod pam fod y genhinen yn symbol cenedlaethol, ond yn ôl hen chwedl, gwisgodd milwyr Cymru genhinen mewn brwydr yn erbyn y Sacsoniaid er mwyn gallu adnabod ei gilydd. Mae'n bosibl fod pobl yn dewis gwisgo cenhinen bedr yn lle'r genhinen am fod bỳlb y ddwy yn edrych yn debyg iawn – ac mae cennin pedr yn dlysach ac yn fwy persawrus na chennin!

Mae Cymry wedi dathlu Dydd Gŵyl Dewi ers canrifoedd. Mae Samuel Pepys yn cofnodi yn ei ddyddiadur o'r ail ganrif ar bymtheg, fod dathliadau Gŵyl Dewi wedi codi gwrychyn y Saeson yn Llundain. Byddent yn crogi delwau enfawr o'r Cymry yn symbol o'u casineb tuag atynt. Erbyn y ddeunawfed ganrif byddai rhai Saeson yn gwneud *taffies*, sef dynion bach sinsir, o Gymry yn marchogaeth gafr.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| adfer | to restore |
| ail ar bymtheg | seventeenth (lit. 2 on 15) |
| atgyfodi | to resurrect |
| brwydr (f) | battle |
| casineb (m) | hatred |
| cenhinen, cennin (f) | leek, -s |
| cenhinen bedr, cennin pedr (f) | daffodil, -s |
| codi gwrychyn | to irritate |
| dall | blind |
| dathliad ,-au (m) | celebration, -s |
| delw (f) | effigy |
| deunawfed | eighteenth (lit. 2 x 9th) |
| dyn bach sinsir | gingerbread man |
| gafr (f) | goat |
| ganrif (< canrif) | century |
| glaniodd (< glanio) | landed |
| gwyrth, -iau, (f) | miracle |
| lleian (f) | nun |
| marchogaeth | to ride |
| nawddsant (m) | patron saint |
| tyrfa (f) | crowd |
| ysgwydd (f) | shoulder |

**Gramadeg**

The ending *–wch* is used to give an order: e.g. *brysiwch* = hurry up, *dewch i mewn* = come in, *edrychwch* = look, *eisteddwch* = sit, *mwynhewch* = enjoy, *sefwch* = stand.

**Cawl cennin**

Mewn cinio Gŵyl Dewi yn aml byddwch yn gweld cawl cennin ar y fwydlen. Edrychwch ar y rysáit isod a gwnewch un.


*Cynhwysion*
1 llwy fwrdd o olew
1 nionyn
225g o datws
2 genhinen
1.2 litr o wlych llysiau
150 ml hufen neu *crème fraîche*
pupur a halen

*Dull*
1. Cynheswch yr olew mewn sosban fawr ac ychwanegwch y nionod, tatws a'r cennin. Coginiwch am 3-4 munud, nes iddyn nhw ddechrau meddalu.
2. Ychwanegwch y gwlych llysiau a dewch â'r cymysgedd i'r berw. Ychwanegwch y pupur a'r halen a berwch nes bod y llysiau yn feddal.
3. Stwnsiwch y llysiau. Dodwch y cymysgedd yn ôl yn y sosban ac ychwanegwch yr hufen neu'r *crème fraîche*.
4. Addurnwch gyda phersli a bwytwch ef gyda bara ffres.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| addurno | to garnish |
| berwi | to boil |
| cynhesu | heat |
| dodi | to place |
| hufen | cream |
| llysiau | vegetables |
| meddal | tender |
| nionyn | onion |
| persli | parsley |
| stwnsio | mash |
| ychwanegu | add |

## Croesair Gŵyl Dewi



**Ar draws:**
3. Beth mae Cymry yn ei wneud ar y cyntaf o Fawrth (6)
5. Symbol Cymru (8, 4)
8. Gwnewch yn boeth (9)

**I Lawr:**
1. Rhowch fwy (11)
2. Aderyn gwyn (7)
4. Ffigwr (4)
6. Mam Dewi Sant (3)
7. Nawddsant Cymru (4)

Ewch i dudalen 11 am yr atebion

# DWYLO *o waith Rebecca Powell (1935-1993)*

O Arglwydd ein Duw, y gallu mawr creadigol,
Y grym a greodd y greadigaeth,
Y Llaw sy'n cynnal y cread,
Diolchwn i ti am ddwylo.

Sawl gwaith y syllodd tad a mam mewn rhyfeddod
Ar law eu baban newyddanedig?
Mor fach, mor berffaith,
Mor llyfn, mor gynnes
Yn gorwedd ar y cwrlid, –
Tydi, o Iôr a'i creodd.

A beth am law brysur y fam? –
Y llaw sy'n tylino'r toes,
Yn golchi'r llestri,
Yn glanhau'r tŷ
Yn gwnïo a gweu;
Yn gwneud cymwynas, yn cynnal aelwyd.
Yn cysuro, yn cynnig cariad
Tydi, o Dad a'i creodd.

A phwy all anghofio grym egnïol llaw y tad?
Y llaw gynnes, gadarn,
Yn trin yr ardd, yn cario'r beichiau
Yn caru, yn ceryddu,
Yn chwarae a chofleidio,
Tydi o Dad a'i creodd.

Mor aml y syllais mewn syndod
Ar ddwylo'r artist,
Yn creu campwaith mewn olew
Neu gerflun o glai;
Ac yntau'r cerddor yn trin y tannau
A hudo a'i law
Rhyw alaw hen i swyno'r synhwyrau –
Tydi, o Dad a'u creodd.

A dyna law y meddyg
A'r gallu gwyrthiol
I drin clwyfau a lleddfu poen,
A llaw y nyrs yn gweini cysur
I'r claf blinedig
Tydi, O Dad a'u creodd.

Dwylo, dwylo, dwylo,
caredig, cryf, cadarn,
Dwylo i afael, dwylo i anwylo,
Dwylo i weithio, dwylo i weddïo
Dwylo i gynnal, dwylo i gadw
Dwylo i estyn yn un gadwyn gref o gyfeillgarwch
Tyd, o Dad a'u creodd
Ac am hynny, molwn dy Enw mawr.

***Rebecca Powell***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Ebrill 2017 –** erbyn bore Mercher, 1 Mawrth, 2017, – neu ar y we i benatgarthdrive@ talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Mai 2017** erbyn bore Sadwrn, 1 Ebrill, 2017 (Dydd Gŵyl Dewi) – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc.

**iii) Rhifyn Mehefin 2017 –** erbyn bore Mawrth, 2 Mai i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 2.00 o'r gloch y pnawn hwnnw.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## CRONFA ARBENNIG GŴYL HEDD WYN
## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi
## Cronfa Gŵyl i gofio Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a'r bardd Hedd Wyn o Drawsfynydd Medi 1917 a hynny 9 a 10 Medi 2017)

**Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016) y swm o £715.00**

**Rhestr 2 (hyd 31 Rhagfyr 2016) y swm o £540.00**

**Rhestr 3 (hyd 31 Ionawr 2017) –**

1) W. Meirion a Eirlys Evans, Allerton, Lerpwl ............£50.00
2) Mrs Eryl Chitty, Gateacre, Lerpwl ............................£50.00
3) Mrs Mair Rees Jones, Claughton, Penbedw...............£25.00
4) Miss Hilda Lloyd, Rainhill........................................£10.00
5) Anne Ellis, Penmaenmawr ........................................£20.00
6) Elw o werthiant *Seren Bethlehem* yng Nghapel Bethel, Lerpwl (trwy law Mr. Ted Clement Evans, Aigburth)..................................................................£88.00
7) Dr. John G. Williams a Mrs Beryl Williams, Allerton ................................£200.00

Cyfanswm ....................................£443.00

**Rhestr 1..............................................................£715.00**
**Rhestr 2..............................................................£540.00**
**Rhestr 3..............................................................£443.00**
**Cyfanswm ..........................................£1,698.00**

Yr ydym yn dal i ymnlwybro a bellach mae angen £3,300 arnom i dalu am
a) Glanhau y Gofeb ym Mharc Penbedw fydd yn £2,500;
b) Gosod cofeb ar waelod y Garreg i goffa Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) fydd yn costio £2,500. Y nôd = £5,000.

**Ceir y bedwerydd rhestr yn rhifyn nesaf o'r *Angor* a dylid anfon y cyfraniadau ariannol i'r Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, Liverpool L18 6HW mor fuan ag y bo modd. Y sieciau i'w llenwi i 'Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi' neu 'Merseyside Welsh Heritage Society'. Diolch am eich cefnogaeth calonogol.**

Myfyrdod

# ADREF - gan Elwyn Parry

Gadewch inni fod yn hollol onest gyda'n gilydd rydym yn hoffi cael ein gwerthfawrogi – cytuno? Os ydych rhywbeth fel fi does dim rhaid iddo fod yn ryw fath o anrheg nac chwaith araith. Fe wnaiff diolch yn fawr syml y tro. Cofiaf yn y coleg yn darllen am Christmas Evans, ehangder ei ddychymyg, ysblander ei allu dramodaidd a'r modd oedd yn medru gwefreiddio cynulleidfaoedd ond mi fyddaf yn hollol onest a chi ni hoffaf y ffaith o gwbl ei fod yn medru eistedd mewn cyfarfod am oriau yn gwrando ar pobol yn ei ganmol ac yn drachtio'r seboni fel ych dŵr ac wedyn yn penderfynu ei agwedd tuag at ei ganmolwyr yn ôl cryfder y sebon. I mi, dyn mor fawr yn medru bod mor fach ... Tybed a oedd ef yn ddyn mor fawr wedi'r cwbl?

Pam, meddech chi, meddwl fel hyn? Wel, yn ôl yr Arglwydd Iesu Grist, mae ein holl gweithredoedd da ni ymhob ran o fywyd i'w gwneud fel na ŵyr ein llaw chwith beth mae ein llaw dde yn ei wneud. Felly, i fynd ymhellach sut mae'r mwyafrif ohonom eisiau cael ein cydnabod pan y ddylem fod yn gweud pethau yn y dirgel? Efallai, chi'n gweld, mae yn y fan honno rydym yn gweld ein gwir amcanion mewn ryw olau anghysurus. Nid yw gwir daioni eisiau gwobr na cydnabyddiaeth. Yn y Bregeth ar y Mynydd mae'r Iesu yn annog Ei ddisgyblion i geisio canmoliaeth Duw yn fwy na chlod dynion. Mae Duw yn gweld yn y dirgel beth sy'n cael ei wneud ac mae ganddo ffyrdd Ei hun o weld ac adnabod gweithredoedd cariad costus.

Ychydig o flynyddoedd yn ôl roedd cenhadwr yn mynd adref i'r Unol Daleithiau ar ôl bod yn Ne Affrica am ddeg mlynedd ar hugain yn gwasanaethu dros Iesu Grist. Roedd yr adeg cyn awyrennau ac felly roedd siwrna hir mewn llong. Ar y llong hefyd oedd Arlywydd yr Unol Daleithiau. Roedd wedi bod ar ei wyliau ac wedi mwynhau safari. Ar ôl siwrnai bleserus dros ben dyma gyrraedd yr Unol Daleithiau ac ar y cei roedd miloedd ar filoedd o fobol yn awyddus i groesawu'r Arlywydd adref. Roedd band militaraidd ar y cei ac wedyn pobl flaenllaw y Llywodraeth yn barod i ysgwyd llaw a chroesawu'r Arlywydd. Ar ôl hyn i gyd dyma gar crand yn tynnu i fyny ac i ffwrdd a'r Arlywydd gyda bloeddio byddarol. Ar ôl yr holl ffwdan dyma'r cenhadwr yn mynd oddiar y llong ar ei ben ei hun. Doedd neb wedi dod i'w gyfarfod. Doedd neb yno i helpu ef gyda'i fagiau, a dim gair o groeso. Fel roedd yn mynd ar hyd y cei roedd yn llawn hunan dosturi. "Pam Arglwydd", meddai dan ei wynt, "mae'r Arlywydd yn cymeryd gwyliau ac maent yn rhoi'r carped coch allan iddo. Rydw i wedi treulio fy oes yn dy wasanaethu di ac yn wir does neb wedi trafferthu dod allan i fy nghroesawu. Oni rydw i'n werth Welcome Home?" Dyma lais tu fewn iddo yn ei stopio yn y fan a'r lle. Bu fyw gydar genadwri hyn hyd y dydd olaf o'i fywyd. Fe ddywedodd y llais frawddeg a doddodd ei galon "Dwyt ti ddim ADREF eto!!!"

## Er cof am Jane a Emrys Hughes, Aigburth, Lerpwl

**Y Ddau**

*[Emrys 'Cwm' a Jane Groeslon Ucha' Dinorwig]*

Yn oes dyn y lleuad yn hel pricia',
ac Ysgol Brynrefail heb symud lle,
'roedd gennym arwyr. Fel arfer hogia'
dipyn hŷn na ni, gydag elfen gre'
o fyd y bêl droed yn eu gwneuthuriad,
yn oriel y rhain yn saff 'roedd 'rhen Em-
y cawr o'r Cwm, a chlamp o gôl-geidwad,
prydweddol – dywyll, a siriol ei drem ...
Lerpwl a'i cafodd, a Jane ei briod,
rhoi ei hoes-waith o ddiwylliant ein bro
i sawl ysgol – a'r ddinas – Gymreictod;
ond balch o ddod adre' i ardal eu co' ...
Bellach, i'r ddau, bu'r hen flwyddyn yn drech
aeth Em at ei Jane'n nwy fil undeg chwech.

*Norman Closs,*
*Treffynnon*

## COFIO HEDD WYN

**Arddangos Ffilm enwog S4C Hedd Wyn**



**ar Nos Lun, 6 Mawrth**
**yng Nghanolfan y Cymry, Auckland Road**
**am 7 o'r gloch.**
**Cyflwynwraig y noson:**
**Sara Williams.**
**Cofiwch am 7 o'r gloch**

## Cystadleuaeth Fawr Yr Angor

# Cystadleuaeth Scrabl

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DD | Y | E | F | O | R | D |
| DD | L | R | Y | A | G | W |
| DD | P | E | F | Y | R | O |
| B | LL | A | R | W | U | Y |

**Mae'r llythrennau o dan bob rhestr yn gwneud gair allan o Salm 23**
**Wedi gorffen? Mae'r llythrennau yn y blychau tywyll yn gwneud gair arall o'r salm.**
**Anfonwch y gair hwn i'r Golygydd, Dr. D. Ben Rees i ennill gwobr o ugain punt £20 erbyn bore Llun, 20 Mawrth, 2017 man bellaf.**

**Cofier anfon i 32 Garth Drive, Lerpwl, L18 6HW am wobr sylweddol o £20.**


**Cinio Gŵyl Dewi ar y cyd rhwng Cymdeithas Lenyddol Bethel, Lerpwl a Chymdeithas Cymry Lerpwl ar Nos Sadwrn, 25 Chwefror 2017 yng Nghlwb Golff Woolton.**

**<u>Gwraig wadd:</u>**

**NIA CERIS, Cyflwynwraig teledu, Bangor.**

**Tocynnau ar werth £25.00**

## Atebion Croesair Gŵyl Dewi




*Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

CYMRAEG


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# S4C YN EDRYCH YMLAEN AT YMWELD Â LERPWL

Mae'r cysylltiadau rhwng Lerpwl a Chymru yn rhai dwfn - a dyna pam mae swyddogion ac aelodau awdurdod S4C yn edrych ymlaen mor eiddgar at ymweld â'r ddinas cyn hir.

**Fe fydd Noson Gwylwyr S4C yn cael ei chynnal yn y ddinas nos Fercher, 15 Chwefror am 7.00 yr hwyr yn y Victoria Gallery & Museum.**

Fe fydd Cadeirydd Awdurdod S4C Huw Jones, Prif Weithredwr S4C Ian Jones ac aelodau o'r awdurdod a'r tîm comisiynu yno i drafod rhaglenni a gwasanaethau S4C.

A fyddech chi'n hoffi gweld mwy o raglenni am y Cymry sy'n byw dros Glawdd Offa? Beth yw eich barn chi am yr arlwy chwaraeon? A ydy'r gwasanaeth isdeitlau ac i ddysgwyr yn ddigonol? Ac a oes digon o wasanaethau ar-lein?




***Huw Jones***

Dyma'r math o gwestiynau y gallwch ofyn mewn trafodaeth agored rhwng y gwylwyr a swyddogion ac aelodau Awdurdod y sianel.

Meddai Cadeirydd Awdurdod S4C, Huw Jones, "Mae S4C ar gael ar lawer iawn o blatfformau tu allan i Gymru bellach ac mae ein cynulleidfaoedd yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn bwysig iawn inni.



***Ian Jones***



"Rydym ni'n edrych ymlaen yn arw at gwrdd â'n cynulleidfa yn Lerpwl er mwyn cael clywed a ydym yn cynnig y rhaglenni a gwasanaethau sydd yn eich denu i wylio ac fe hoffen ni wybod beth yn fwy y gallwn ei wneud i sicrhau bod dinasyddion y ddinas arbennig hon yn teimlo'n rhan o fyd cyffrous a theulu gwylwyr y sianel."



Mae rhaglenni fel y gyfres gylchgrawn Heno a Newyddion yn ymweld â'r ddinas nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn gan ei bod mor agos at y ffin. Yn ddiweddar darlledwyd rhaglen ddogfen bwerus am gefnogwyr pêl-droed Lerpwl a gafodd eu heffeithio gan drychineb stadiwm Hillsborough yn 1989. Mae ***Hillsborough: Yr Hunllef Hir*** yn dal ar gael i'w gwylio ar alw ar-lein.

Mae croeso cynnes i bawb i Noson Gwylwyr S4C. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael, ac mae offer cyfieithu a system loop i'r rhai sydd eu hangen. Mae modd cyfrannu at y drafodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gallwch gael hyd i leoliad yr amgueddfa yng nghanol Lerpwl trwy ymweld â'i gwefan,  vgm.liverpool.ac.uk

*Owain Pennar*
*Swyddog Cyfathrebu*
*Communication Officer*